



Amcan Llesiant 12

Amgylchedd Iach a Diogel -

Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol

Y canlynol yw ein hymrwymadau a'n sylwadau cynnydd diwedd blwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
A - Mynd i'r afael â gofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016		
<p>Byddwn yn adolygu swyddogaeth Gorfodi Rheolau Cynllunio a Chadwraeth yn yr Is-adran Gynllunio i sicrhau y gall gyflawni ei chyfrifoldebau o dan Ddeddf yr Amgylchedd. <i>(Cam gweithredu rhif 12647)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi cynnal cyfarfodydd gyda thimau amrywiol o fewn yr Is-adran Cynllunio a chael trafodaeth ehangach mewn diwrnod Cwrdd i Ffwrdd diweddar a gynhaliwyd fis Ebrill 2018. Bydd y Tîm Cadwraeth Wledig yn parhau i adolygu'r mater hwn yn ystod y flwyddyn nesaf i benderfynu a oes angen cynnal rhagor o sesiynau briffio neu weithdy.</p>
<p>Byddwn yn parhau i gyflawni prosiect Britheg y Gors Ardal Cadwraeth Arbennig Caeau Mynydd Mawr, a hynny'n unol â'r Canllawiau Cynllunio Atodol sy'n ceisio sicrhau bod o leiaf 100 hectar o gynefin Britheg y Gors yn cael eu rheoli'n barhaus. <i>(Cam gweithredu rhif 12649)</i></p>	✓	<p>Mae'r prosiect yn rheoli 24 o safleoedd erbyn hyn, sy'n cynnwys dros 40.25 hectar o gynefin addas i pili-pala britheg y gors ac o leiaf 80 hectar arall lle mae rhywfaint o bosibilrwydd o'u hadfer fel cynefin addas. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn gyfrifol am reoli ychydig yn llai o dir na chynt (37.96ha), gan fod llecyn bach roeddent yn ei reoli wedi cael ei dynnu o gytundeb rheoli, ac er bod peth o'r tir hwn yn cael ei reoli bellach gan y prosiect, nid yw'r tir hwn i gyd wedi'i drosglwyddo. Yn ystod y flwyddyn mae'r prosiect wedi gwneud cynnydd o ran adfer cynefinoedd mewn 19 o safleoedd. Mae wedi gweithio gyda chontractwyr i wneud gwaith ffensio a thorri er mwyn gwaredu llystyfiant trwchus. Mae cynefinoedd o ansawdd da yr effeithid arnynt gan y gwaith o adeiladu ffordd gswllt Cross Hands wedi eu trawsleoli i ardaloedd lle gellir eu rheoli am byth. Yn ystod y flwyddyn gwariwyd £54,000 ar gontractwyr, gan ddangos sut mae'r prosiect yn cyfrannu at yr economi leol. Hefyd, cwblhawyd dau o losgiadau a reolir ym mis Mawrth ac roeddent yn llwyddiannus iawn, gyda chymorth gwirfoddolwyr a Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru. Gall llosgi dan reolaeth ddarparu ateb cost-ffeithiol ar gyfer rheoli glaswelltir corsiog sydd wedi'i esgeuluso. Yn ystod y flwyddyn mae'r prosiect wedi helpu i drefnu bod y safleoedd yn cael eu pori, ac ar rai safleoedd mae'r prosiect yn arbrofi drwy gael nifer fach iawn o anifeiliaid i bori dros y gaeaf. Mae monitro yn rhan annatod o'r prosiect, ac roedd arolygon o weoedd larfa yn hydref 2018 wedi cofnodi gweoedd a arolygwyd y mae'r prosiect yn eu rheoli. Mae gweoedd larfal yn arwydd bod y math hwn o bili-bala yn bridio, fodd bynnag o achos yr hafau gwlyb mae niferoedd y</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		<p>gweoedd larfal wedi bod yn isel am nifer o flynyddoedd.</p> <p>Gan weithio gyda'r parcmon cadwraeth, mae'r prosiect wedi trefnu ymweliadau gan ysgolion â Pharc Coetir y Mynydd Mawr, ac mae'n rhoi cyfleoedd i bobl leol wirfoddoli</p> <p>Ym mis Gorffennaf roedd y prosiect wedi ennill gwobr TIC gan y Cyngor, a gwnaethpwyd fideo byr ar ei gyfer. Ym mis Tachwedd cafodd y prosiect Ganmoliaeth Arbennig gan Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol (RTPI) Cymru ac mae wedi cyrraedd rownd derfynol gwobrau RTPI UK 2018. Aeth Cyngorwyr Sir i'r safle ym mis Hydref i weld y gwaith mae'r prosiect yn ei wneud drostyn nhw eu hunain.</p>
<p>Byddwn yn cymryd i ystyriaeth ofynion Deddf yr Amgylchedd wrth weithredu a monitro'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig ac yn y broses o benderfynu ar geisiadau cynllunio.</p> <p><i>(Cam gweithredu rhif 12650)</i></p>	✓	<p>Mae angen monitro'r Cynllun Datblygu Lleol yn flynyddol er mwyn ystyried newidiadau cyd-destunol sy'n dod i'r amlwg drwy ddeddfwriaeth genedlaethol. Yn hyn o beth mae goblygiadau Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi cael eu hystyried yn llawn ac ystyrir bod y Cynllun yn cydymffurfio. Bydd Adroddiad yr Adolygiad ar gyfer y CDLI yn ystyried unrhyw newidiadau penodol a allai fod yn ofynnol fel rhan o baratoi CDLI newydd.</p>
<p>Byddwn yn cynhyrchu ac yn cyhoeddi'r Adroddiad Monitro Blynnyddol mewn perthynas â'r Cynllun Datblygu Lleol ac yn sicrhau y rhoir sylw i oblygiadau'r Ddeddf. <i>(Cam gweithredu rhif 12651)</i></p>	✓	<p>Cafodd yr ail Adroddiad Monitro Blynnyddol ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru a'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn unol â'r terfyn amser rheoleiddiol o 31 Hydref.</p>
<p>Byddwn yn parhau i ddatblygu'r cymorth Ymgynghori Cynllunio mewnol a ddarperir i adrannau sy'n datblygu cynlluniau lle mae'n ofynnol cael caniatâd cynllunio.</p> <p><i>(Cam gweithredu rhif 12652)</i></p>	✓	<p>Mae'r gwasanaeth Ymgynghori Cynllunio wrthi'n cael ei lunio ar hyn o bryd. Mae risgiau mewn perthynas â gallu staff yn cael eu monitro, ac mae gan ofynion y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig oblygiadau posibl.</p>
<p>Byddwn yn parhau i fwrw ati i lunio Rhestr Taliadau Ardoll Seilwaith Cymunedol (CIL) a thystiolaeth ategol (gan gynnwys anghenion ecolegol) i lywio ymgynghoriadau'r dyfodol a phenderfyniadau'r Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12653)</i></p>	✓	<p>Yn dilyn yr adroddiad aeth i'r Cyngor Sir ar gynnydd Ardoll Seilwaith Cymunedol Sir Gaerfyrddin (CIL), mae'r CIL wedi cael ei roi ar encil yn dibynnu ar benderfyniadau Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.</p> <p>Mae hyn yn adlewyrchu datganoli CIL i Lywodraeth Cymru fel rhan o Ddeddf Cymru ac yn sgil hynny ail-werthuso CIL mewn cyd-destun Cymreig. Bydd canlyniad yr ystyriaeth hon ar lefel genedlaethol yn parhau i gael ei fonitro.</p>
<p>Byddwn yn paratoi ac yn cyhoeddi at ddibenion ymgynghori cyn mabwysiadu, Orchymyn Datblygu Lleol ar gyfer Canol Tref Llanelli, fel rhan o ymagwedd strategol gydgysylltiedig at adfywio yng nghanol y dref. <i>(Cam gweithredu rhif 12654)</i></p>	✓	<p>Mae argaeledd tystiolaeth gadarn ac amddiffynadwy a darpariaethau statudol sy'n ategu ei ddynodiad yn ganolog i baratoi'r Gorchymyn Datblygu Lleol a'i gyhoeddi at ddibenion ymgynghori. Mae'r gwaith hwn wedi'i gwblhau ac ynghyd â'r dystiolaeth ategol mae'r Gorchymyn Datblygu Lleol wedi cael ei gyhoeddi fel rhan o'r ymgynghoriad ddaeth i ben ym mis Chwefror 2018. Bydd ymatebion ddaeth i law fel rhan o'r ymgynghoriad ar y Gorchymyn Datblygu</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Lleol yn cael eu riportio drwy'r broses ddemocrataidd cyn mabwysiadu'r Gorchymyn Datblygu Lleol.
Byddwn yn parhau i fonitro, a, lle bo'n briodol, reoli'r defnydd o arian a godwyd drwy gyfraniadau gan ddatblygwyr, gan gynnwys cytundebau adran 106. O ganlyniad byddwn yn sicrhau y defnyddir arian yn briodol a bod defnydd effeithlon a di-oed yn cael ei wneud o gronfeydd, yn enwedig gwelliannau ecolegol ar gyfer ecosystemau gwydn. <i>(Cam gweithredu rhif 12655)</i>	✓	Mae'r gwaith yn digwydd yn barhaus ac mae cyfraniadau ariannol yn cael eu casglu a'u defnyddio, yn unol â'r gweithdrefnau perthnasol a darpariaethau'r cytundebau cyfreithiol. Mae rhai o'r taliadau hyn yn ymwneud yn uniongyrchol â gwelliannau ecolegol ac mae'r lleill yn faterion cysylltiedig â gofynion sy'n deillio o ofynion addysg, priffyrdd a pharciau.
Byddwn yn gwella cysylltiadau gweithio ac yn datblygu Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda phartneriaid Awdurdod Lleol eraill drwy nodi'n barhaus "ffyrdd gwell o weithio" a blaenoriaethu'r gwasanaeth Mwynau a Gwastraff i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol i'n cwsmeriaid. <i>(Cam gweithredu rhif 12656)</i>	✓	Mae'r gwaith o ad-drefnu'r Uned Mwynau a Gwastraff wedi ei gwblhau a bydd hyn yn hwyluso'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth. Cytunwyd ar Gytundeb Lefel Gwasanaeth drafft gyda Chyngor Sir Ceredigion. Mae cryn drafod wedi bod â Chyngor Bwrdeistref Sirol Penybont ac mae'r gwaith monitro yno ar y gweill. Cynhaliwyd trafodaethau cychwynol gyda Chyngor a Dinas Abertawe a Chyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Mae Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi dangos rhywfaint o ddiddordeb. Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda'r partneriaid Cytundeb Lefel Gwasanaeth presennol i drafod a ellir gwneud gwelliannau i'r gwasanaeth. Mae partneriaid presennol yn hapus â'r gwasanaeth a ddarperir ond nodwyd rhai ffyrdd gwell o weithio.
Byddwn yn monitro'r caniatâd cynllunio a roddir ac a wrthodir ar gyfer datblygiadau ar orlifdir C1 ac C2. <i>(Cam gweithredu rhif 12648)</i>	✓	Mae'r Adroddiadau Perfformiad Blynyddol yn monitro'r canlyniad mewn perthynas â hyn a dangosyddion Datblygu Cynaliadwy cenedlaethol eraill. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol terfynol ar gyfer 2016-17 yn datgan: <ul style="list-style-type: none"> • Nifer yr unedau preswyl nad oeddent yn bodloni pob un o brofion TAN 15 lle rhoddwyd caniatâd – 2 uned breswyl. • Nifer yr unedau preswyl nad oeddent yn bodloni pob un o brofion TAN 15 lle gwrthodwyd caniatâd ar sail risg llifogydd – 2 uned breswyl. • Nifer yr unedau preswyl a fodlonodd pob un o brofion TAN 15 lle rhoddwyd caniatâd - 8 uned breswyl.
Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn mynd rhagddo os yw'n effeithio ar uniondeb safleoedd Natura 2000. <i>(Cam gweithredu rhif 12657)</i>	✓	Nododd ail Adroddiad Monitro Blynyddol 16/17 y Cynllun Datblygu Lleol nad oedd dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo a allai effeithio ar uniondeb safleoedd Natura 2000 yn ystod cyfnod yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol.
Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn mynd rhagddo os yw'n effeithio ar safle sydd wedi'i ddynodi at ddibenion cadwraeth natur. <i>(Cam gweithredu rhif 12658)</i>	✓	Mae ail Adroddiad Monitro Blynyddol 16/17 ar gyfer y Cynllun Datblygu Lleol yn nodi nad oes dim ceisiadau cynllunio wedi'u cymeradwyo sy'n effeithio ar uniondeb safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur yn ystod cyfnod yr Adroddiad Monitro Blynyddol.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
Ni fydd unrhyw ddatblygiad yn mynd rhagddo os bydd yn niweidiol i statws cadwraeth ffafriol rhywogaeth a warchodir gan Ewrop, neu'n achosi niwed sylweddol i rywogaeth a ddiogelir gan statud arall. <i>(Cam gweithredu rhif 12659)</i>	✓	Mae ail Adroddiad Monitro Blyneddol 16/17 ar gyfer y CDLI yn nodi nad oedd dim ceisiadau cynllunio wedi eu cymeradwyo'n groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru neu ecolegydd y Cyngor.
Byddwn yn monitro'r gwahanol amcanion cynaliadwyedd a nodir yn Adran Monitro Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol Adroddiad Monitro Blyneddol y Cynllun Datblygu Lleol (yn cwmpasu cynaliadwyedd, bioamrywiaeth, ansawdd aer, ffactorau hinsawdd, dŵr, lleihau'r defnydd o adnoddau cyfyngedig, hyrwyddo hierarchaeth gwastraff, pridd, ac ati) <i>(Cam gweithredu rhif 12660)</i>	✓	Mae ail Adroddiad Monitro Blyneddol 16/17 yn darparu asesiad manwl mewn perthynas â monitro'r mesurau a nodir mewn perthynas â'r Arfarniad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol.
Byddwn yn cynyddu canran yr holl geisiadau cynllunio y penderfynir arnynt mewn pryd <i>(PAM/018)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 69.8% /Targed 2017/18 - 75%)</i>	✘	Canlyniad 2017/18 71.18% , nid yw hwn yn unol â'r targed ond mae'n well na chanlyniad y llynedd. Cafodd yr is-adran ei hailstrwythuro yn gynharach yn y flwyddyn ac ad-drefnwyd prosesau; rhywbeth gafodd effaith ar lwythi gwaith swyddogion. Mae newidiadau i ddeddfwriaeth drwy gyflwyno protocolau 'estyniad amser' yn ein galluogi i adlewyrchu'n fwy cywir yr 'amser swyddog' a gymerir. Nid oedd y rhain wedi eu defnyddio'n gyson ac roedd diffyg eglurder ac arweiniad ynghylch eu defnydd. Er nad ydym wedi cyrraedd y targed hyd yn hyn, mae gwelliant wedi bod ers yr ailstrwythuro yn chwarteri 3 a 4.
Byddwn yn cynyddu % yr apeliadau cynllunio sy'n cael eu gwrthod <i>(PAM/019)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 66.67% / Targed 2017/18 - 69%)</i>	✘	Canlyniad 2017/18 52.63% (10/19) , nid yw hyn yn cydymffurfio â'r targed ac mae'n is na chanlyniad y llynedd. Mae'r canlyniadau'n cynnwys apeliadau a gadarnhawyd lle gwnaed penderfyniad gan y Pwyllgor yn groes i argymhelliad y swyddog. Gan fod aelodau newydd wedi cael eu hethol ym mis Mai 2017, cafodd y Pwyllgor Cynllunio newydd hyfforddiant i sicrhau bod yr holl resymau dros wrthod yn rhai cadarn y mae modd eu hamddiffyn ac y rhoddir rhesymau clir a chyfiawn mewn amgylchiadau lle eir yn erbyn argymhelliad y swyddog. Mae canlyniad diwedd y flwyddyn yn cynnwys apeliadau a gadarnhawyd lle gwnaethpwyd penderfyniadau gan y Pwyllgor yn groes i argymhellion y swyddog.
B - Bioamrywiaeth a Chydnheredd Dyletswydd Ecosystemau		
O fewn Adran yr Amgylchedd byddwn yn gweithredu ein Cynllun Gweithredu 12 pwynt ar gyfer Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (2017 – 19). <i>(Cam gweithredu rhif 12661)</i>	✓	Hon oedd blwyddyn gyntaf Cynllun Gweithredu yr Amgylchedd. Mae trafodaeth bellach wedi bod yn angenrheidiol ynghylch perchnogi camau. Cytunwyd i adrodd gyntaf ynghylch rhoi'r cynllun ar waith ddiwedd y flwyddyn gan taw hon yw'r flwyddyn gyntaf, ac mae sefydlu a gweithredu'r monitro wedi cymryd amser. Cyflwynwyd yr adroddiad diwedd blwyddyn i'r Tîm Rheoli

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
		Adrannol ddiwedd mis Mai 2018. Hefyd eleni bydd adroddiad hanner blwyddyn i'r Tîm Rheoli Adrannol yn cael ei roi ym mis Hydref 2018. Mae'r dyddiadau'n cael eu pennu bellach ym mlaenraglen waith y Tîm Rheoli Adrannol.
Byddwn yn datblygu ymhellach Flaen-gynllun Deddf yr Amgylchedd, gydag adrannau eraill ar gyfer 2018/19. <i>(Cam gweithredu rhif 12662)</i>	✓	Mae'r rhan fwyaf o'r drafodaeth yn ystod y flwyddyn hon wedi bod gyda'r Tîm Hamdden, yn ogystal ag ynghylch ymchwilio i'r camau a drefnwyd ar gyfer Adran yr Amgylchedd. Mae problemau ymsefydlu wedi codi yn ystod y flwyddyn gyntaf - yn enwedig o ran perchnogi camau gweithredu. Felly, mae angen amser i fynd i'r afael â'r materion hynny cyn symud ymlaen gan ychwanegu camau ar gyfer adrannau eraill. Wedyn gellir dysgu gwersi yn dilyn hynny.
C - Gweithredu a hyrwyddo mwy o ddefnydd o ynni adnewyddadwy		
Byddwn yn lleihau'r defnydd o ynni (kWh) / allyriadau carbon (tunelli) ym mhortffolio adeiladau annomestig presennol y Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12663)</i>	!	Mae gofynion adrodd gorfodol Cynllun Effeithlonrwydd Ynni yr Ymrwymiad Lleihau Carbon Cenedlaethol yn berthnasol i'r Cyngor. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ddata diwedd blwyddyn gael ei ddarparu gan ein cyflenwyr ynni i gadarnhau'r defnydd blynyddol o ynni. Ar hyn o bryd rydym yn aros i gael y wybodaeth hon, ac, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, ein nod fydd adrodd erbyn diwedd mis Gorffennaf 2018.
Byddwn yn clustnodi ac yn cyflawni prosiectau effeithlonrwydd ynni yn adeiladau presennol, annomestig y Cyngor. <i>(Cam gweithredu rhif 12664)</i>	✓	Mae datganiad o ddiddordeb wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am £2 filiwn o gyllid di-log dan Raglen Cyllid Cymru ar gyfer Cam 1 rhaglen Re:fit Cymru. Mae 30 o adeiladau annomestig posibl, yn cynnwys ysgolion, wedi cael eu nodi i'w cynnwys yng Ngham 1. Mae manylion diwethaf gwahoddiad i dendro yn cael eu trefnu ar hyn o bryd i'w cyflwyno ym mis Mehefin 2018. Wedyn bydd y darparwr gwasanaeth llwyddiannus yn cynnal cynigion gradd buddsoddi ar gyfer pob adeilad er mwyn penderfynu ar lefel warrantedig o arbedion a fydd yn rhan o gontractau perfformiad ynni (gyda'r ad-daliad yn digwydd dros gyfnod o lai nag 8 mlynedd). Yn ogystal, nodwyd 9 o brosiectau goleuadau posibl dan raglen buddsoddi i arbed SALIX.
Byddwn yn ystyried y posibilrwydd o gynnwys adeiladau annomestig y Cyngor yn rhaglen Llywodraeth Cymru Re: fit Cymru, er mwyn clustnodi'n drylwyr gyfleoedd o ran effeithlonrwydd ynni. <i>(Cam gweithredu rhif 12665)</i>	✓	Mae datganiad o ddiddordeb wedi'i gyflwyno i Lywodraeth Cymru am £2 filiwn o gyllid di-log dan Raglen Cyllid Cymru ar gyfer Cam 1 rhaglen Re:fit Cymru. Mae 30 o adeiladau annomestig posibl, yn cynnwys ysgolion, wedi cael eu nodi i'w cynnwys yng Ngham 1. Mae manylion diwethaf gwahoddiad i dendro yn cael eu trefnu ar hyn o bryd i'w cyflwyno ym mis Mehefin 2018. Wedyn bydd y darparwr gwasanaeth llwyddiannus yn cynnal cynigion gradd buddsoddi ar gyfer pob adeilad er mwyn penderfynu ar lefel warrantedig o arbedion a fydd yn rhan o gontractau perfformiad ynni (gyda'r ad-daliad yn digwydd dros gyfnod o lai nag 8 mlynedd).

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn cynyddu faint o ynni a gynhyrchir o dechnolegau adnewyddadwy (kWh). <i>(Cam gweithredu rhif 12666)</i></p>	✓	<p>Mae'r Cyngor yn dal i fuddsoddi mewn systemau solar ffotofoltäig (PV) ar ei adeiladau annomestig, ac mae wedi mwy na dyblu capasiti drwy ychwanegu 1.15 MWp arall. Mae mwy o drydan wedi'i gynhyrchu yn 2017/18 na blynyddoedd blaenorol, sef 937,330 kWh o gymharu â 670,401 kWh yn 2016/17.</p> <p>Mae ymarfer profion marchnad i nodi cwmnïau sydd o bosibl â diddordeb mewn rhaglen gosod paneli haul ar bob eiddo addas yn stoc dai y Cyngor wedi cael ei gynnal drwy Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd. Yn anffodus, dengys gwerthusiad pellach nad yw'r prosiect arfaethedig yn ddichonadwy efallai o achos yr arenillion ariannol tebygol ynghyd â'r risgiau cynyddol a'r costau sefydlu.</p> <p>Hefyd ar hyn o bryd ymchwilir i gyfleoedd ar gyfer prosiect ffotofoltaidd solar 350 kWp sydd wedi'i osod ar y llawr ar dir y Cyngor.</p>
<p>Byddwn yn cyflwyno system meddalwedd rheoli ynni SystemsLink. <i>(Cam gweithredu rhif 12667)</i></p>	✓	<p>Mae data am ddefnyddio ynni yn cael ei lwytho'n llwyddiannus i'r system. Yr her nesaf yw ymestyn y system i gynnwys mesuryddion dŵr, ac yna yn y pen draw i hwyluso bilio electronig.</p>
<p>Byddwn yn monitro'r caniatâd cynllunio a roddir ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn ystod y flwyddyn. <i>(Cam gweithredu rhif 12668)</i></p>	✓	<p>Mae ail Adroddiad Monitro Blynyddol 2016/17 yn dangos bod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer cynlluniau a allai gyfrannu cyfanswm o 17.306 MW o ynni adnewyddadwy o fewn y sir. Gall hyn gael ei rannu fel a ganlyn:</p> <p>Gwynt: 0.106 MW / Haul: 8 MW / Dŵr: 0.10 MW / Arall: 9.10MW</p> <p>Bwriad y targed yw cynyddu'r ynni adnewyddadwy a ganiateir bob blwyddyn yn y sir. Fodd bynnag, dylid nodi bod hyn yn cael ei fonitro at ddibenion gwybodaeth yn unig.</p>
<p>Byddwn yn cynyddu faint o ynni a gynhyrchir yn y sir o ffynonellau adnewyddadwy. <i>(Cam gweithredu rhif 12669)</i></p>	✓	<p>Mae ail Adroddiad Monitro Blynyddol 16/17 ar gyfer y CDLI, yn dangos bod caniatâd cynllunio wedi cael ei roi ar gyfer cynlluniau a allai gyfrannu cyfanswm o 17.306 MW o ynni adnewyddadwy o fewn y sir. Gall hyn gael ei rannu fel a ganlyn:</p> <p>Gwynt: 0.106 MW, Haul: 8 MW, Dŵr: 0.10 MW, Arall: 9.10MW.</p> <p>Bwriad y targed yw cynyddu'r ynni adnewyddadwy a ganiateir bob blwyddyn yn y sir. Fodd bynnag, dylid nodi bod y dangosydd hwn yn cael ei fonitro at ddibenion gwybodaeth yn unig.</p>
<p>Byddwn yn cynhyrchu Canllawiau Cynllunio Atodol ar Ynni Adnewyddadwy Cyffredinol. <i>(Cam gweithredu rhif 12670)</i></p>	✓	<p>Mae'r gwaith o baratoi'r Canllawiau Cynllunio Atodol a'r wybodaeth sydd ynghlwm wrthynt yn cael ei ystyried ar hyn o bryd fel rhan o broses adrodd y Cyngor. Rydym yn rhagweld y bydd y Canllawiau Cynllunio Atodol drafft yn cael eu cyhoeddi er mwyn ymgynghori yn eu cylch yn ystod haf 2018.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
D - Cynllun Rheoli Llifogydd a Gwastraff a Chynllun Rheoli'r Traethlin		
<p>Byddwn yn cwblhau Cynlluniau Rheoli'r Perygl o Llifogydd fel rhan o'r strategaeth ar gyfer nodi, rheoli a lliniaru'r perygl o lifogydd yn ein cymunedau. <i>(Cam gweithredu rhif 12671)</i></p>	✓	<p>Trwy gydol 2017 rydym wedi parhau i ddatblygu ein Cynllun Rheoli'r Perygl o Llifogydd (FRMP). Cynhaliwyd gwerthusiad o'r risg llifogydd ar lefel ward a nodwyd camau gweithredu yn unol â hynny. Yn ogystal rydym wedi nodi 50 o ardaloedd lle mae risg uchel o lifogydd ar draws y sir, o'r enw Unedau Polisi. Ardaloedd daearyddol bach yw'r rhain lle mae'r perygl mwyaf o lifogydd a lle byddwn yn blaenoriaethu ein hadnoddau ac yn nodi ateb penodol i reoli'r risg o lifogydd. Bydd y FRMP yn cael ei gyhoeddi yn 2018.</p>
<p>Byddwn yn gwneud y gwaith parhaus o gynnal a chadw cyrsiau dŵr, systemau draenio ac asedau amddiffyn rhag llifogydd. Bydd y gwaith hwn yn cynnwys cynnal a chadw rheolaidd, arolygon asedau a gwaith cynnal a chadw ataliol. <i>(Cam gweithredu rhif 12672)</i></p>	✓	<p>Rydym wedi parhau i wneud gwaith cynnal a chadw i'n cyrsiau dŵr, systemau draenio ac asedau amddiffyn rhag llifogydd. Eleni rydym wedi: cwblhau Cwlfer Atal Llifogydd Dwynant; gwneud atgyweiriadau i'r cwlfer yng Nghenarth sy'n achosi llifogydd; cwblhau'r cynllun amddiffyn rhag llifogydd yn Heol y Bwll Bynea; gwneud gwelliannau i gridiau a mynediad er mwyn gwella cynnal a chadw; gwneud gwaith cynnal a chadw gridiau i'w cadw'n rhydd rhag llanast.</p> <p>Rydym wedi defnyddio systemau teledu cylch cyfyng i gynnal arolyg o gwlferei. Prynu cronfa ddata asedau AMX solutions Ltd i gasglu gwybodaeth am gyflwr asedau er mwyn blaenoriaethu gwaith yn y dyfodol. Wedi gorffen llunio'r manylion ar gyfer y Gronfa Ddata asedau cenedlaethol a'u cyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru. Dechreuwyd ar y gwaith o benderfynu ar safonau gwasanaeth ac oes weddilliol cwlferi a nodwyd yn y Gronfa Ddata Asedau Cenedlaethol.</p>
<p>Byddwn yn parhau i gynllunio, rheoli ac ymateb i achosion o erydu arfordirol yn unol â'r egwyddorion a nodir yn ein Cynllun Rheoli'r Traethlin. <i>(Cam gweithredu rhif 12673)</i></p>	✓	<p>Cwblhawyd y gwaith o wella'r wal gynnal o flaen y promenâd yn Llanelli. Dechreuwyd ar y gwaith o ran y Cynllun Amddiffynfeydd Arfordirol wrth y Cerflunwaith Pridd ym Mhorth Tywyn. Dechreuwyd ar y gwaith o benderfynu ar safonau gwasanaeth ac oes weddilliol asedau amddiffynfeydd arfordirol.</p>
E – Tuag at Ddyfodol Diwastraff		
<p>Byddwn yn parhau i adolygu ein hopsiynau o ran strategaeth trin gwastraff a'r anghenion o ran seilwaith ailgylchu, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu parhau i gyrraedd ein targedau ailgylchu statudol a thargedau dargyfeirio o safleoedd tirlenwi o fis Ebrill 2018 ymlaen. <i>(Cam gweithredu rhif 12674)</i></p>	✓	<p>Cadarnhawyd trosglwyddo CWM i fod yn gwmni Teckal yng nghyfarfod cyntaf Bwrdd y Cyfranddalwyr ar 30 Mai 2018.</p>
<p>Byddwn yn parhau i weithio gyda amgylcheddol CWM i adolygu ein trefniadau triniaeth/gwaredu gwastraff yn y tymor byr drwy sicrhau trefniadau priodol ar gyfer trin a chael gwared ar ein gwastraff hyd at ddiwedd mis Mawrth 2018. <i>(Cam gweithredu rhif 12675)</i></p>	✓	<p>Roedd CWM Environmental wedi dod o hyd i gontract tymor byr arall ar gyfer Tanwydd yn Deillio o Sbwriel am chwarter olaf 2017/18. Bydd y Cyngor a CWM yn dal i barhau i gydweithio i ddatblygu opsiynau cynaliadwy mwy hirdymor.</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ x	Sylw ar Gynnydd
<p>Byddwn yn ymchwilio i ffynonellau ychwanegol posibl o incwm ar gyfer y gwasanaeth drwy asesu ac adolygu'r potensial i ehangu'r cynllun gwastraff gwyrdd wrth ymyl y ffordd ac i adolygu'r potensial i gynnig gwasanaeth ailgylchu gwastraff masnach. <i>(Cam gweithredu rhif 12676)</i></p>	✓	<p>Cychwynnwyd y broses gofrestru ar gyfer y Cynllun Gwastraff Gardd newydd ym mis Chwefror 2018 a dechreuwyd ei roi ar waith ar 12 Mawrth. Erbyn diwedd y cyfnod hwn roedd 300 o gwsmeriaid ychwanegol wedi cofrestru ar gyfer y gwasanaeth, ac roeddid yn rhagweld y byddai hyn yn cynyddu rhagor drwy gydol y flwyddyn ariannol nesaf.</p>
<p>Byddwn yn parhau i adolygu'r cyfraddau presennol ar gyfer ailgylchu gwastraff y cartref er mwyn sicrhau bod cymaint â phosibl o wastraff yn cael ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi ac er mwyn cynyddu ailgylchu. Cynnal rhaglen o ddrws i ddrws er mwyn cynghori ac annog trigolion i fod yn rhan o'n cynlluniau ailgylchu. <i>(Cam gweithredu rhif 12677)</i></p>	✓	<p>Yn ystod yr ail gyfnod o fis Hydref i fis Mawrth, cynhaliwyd 5 o amnestau gwastraff gyda digwyddiad ailgylchu eitemau trydanol ychwanegol. Mae'r rhain i gyd mewn ardaloedd sydd heb ddarpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref. Roedd 1,880 o drigolion wedi mynychu'r digwyddiadau hyn, roedd 115.54 tonnelli o wastraff wedi cael ei gasglu ac roedd 67% o'r swm hwnnw wedi cael ei ailgylchu.</p> <p>978 o ymweliadau adweithiol wedi cael eu gwneud ag aelwydydd lle cafodd ei nodi nad oeddent yn ailgylchu'n gywir ar hyn o bryd neu eu bod wedi gofyn am ymweliad i gael cyfarwyddyd.</p> <p>Curwyd ar ddrysau 717 o dai a oedd wedi'u dynodi'n rhai nad oeddent yn ailgylchu gwastraff bwyd, gan barhau o'r cyfnod cyntaf. Wedyn roedd 1840 o aelwydydd wedi eu monitro'r drwy'r post yn dilyn cyfnod o guro ar ddrysau. Roedd hyn yn dangos cynnydd o 9% o ran cymryd rhan yn ein cynllun ailgylchu bwyd yn yr ardal honno.</p> <p>Roedd 865 o aelwydydd hefyd wedi'u targedu gan ymgyrch curo ar ddrysau fel rhan o weithgor gyda sefydliadau partner i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon mewn ardal ddifreintiedig yn gymdeithasol yn y sir; nodwyd hon yn broblem gan y grŵp. Rhoddwyd gwybodaeth i'r holl drigolion am aildddefnyddio a'r modd cywir o ailgylchu/gwaredu gwastraff swmpus. Cynhaliwyd arolygon hefyd ynghylch rhwystrau a beth oedd y ffordd orau o gyfleu'r wybodaeth hon i drigolion yr ardal honno. Er enghraifft roedd nifer fawr o bobl yn yr ardal yn debygol o alw wyneb yn wyneb i gael gwybodaeth yn un o swyddfeydd lleol y cyngor.</p>
<p>Byddwn yn adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer aildddefnyddio ac yn asesu'r potensial ehangach i gynyddu canrannau aildddefnyddio. <i>(Cam gweithredu rhif 12678)</i></p>	✓	<p>Mae'r adran dal wrthi'n adolygu'r gwasanaeth casglu gwastraff swmpus er mwyn casglu cymaint o ddeunydd â phosibl i'w aildddefnyddio. Cyn bo hir byddwn yn cychwyn adolygiad o'r ddarpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref fel y gellir aildddefnyddio cymaint o wastraff swmpus â phosibl.</p> <p>Mae'r cerbydau a ddefnyddir i gasglu gwastraff swmpus hefyd yn cael eu hadolygu er mwyn cynnal</p>

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✘	Sylw ar Gynnydd
		safon y deunydd. Yn ogystal bydd y gwaith o ddsbarthu cynwysyddion ailgylchu ar wahân i'r gwasanaeth casglu gwastraff, er mwyn lleihau'r amser casglu ar gyfer eitemau swmpus i gynyddu'r potensial o aildddefnyddio eitemau o'r fath.
Byddwn yn cadw canran y gwastraff a anfonir i safleoedd tirlenwi i isafswm (PAM/031) (Canlyniad 2016/17 - 4.73% / Targed 2017/18 - 10%)	✘	Canlyniad 2017/18 - 20.29%. Nid yw'n cydymffurfio â'r targed ac mae'n dangos dirywiad. Oherwydd anawsterau o fewn y farchnad tanwydd sy'n deillio o sbwriel, gwelwyd ataliad dros dro yn ystod y trydydd chwarter o ran y deunydd sy'n cael ei allforio at ddibenion adfer ac ailgylchu. Yr unig opsiwn ymarferol o ran gwaredu ar gyfer y cyfnod hwn oedd drwy drefniadau tirlenwi amgen am gyfnod dros dro. Felly mae'r sefyllfa hon wedi cael effaith uniongyrchol ar ein perfformiad o ran dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi. Fodd bynnag, er inni golli ein targed a osodwyd yn fewnol, rydym dal o fewn terfynau'r targedau cenedlaethol statudol. Canfuwyd marchnadoedd allforio amgen Tanwydd yn Deillio o Sbwriel ers hynny ac rydym wedi ailgychwyn allforio gwastraff gweddilliol i gymerwyr Tanwydd yn Deillio o Sbwriel. Byddwn dim ond yn defnyddio'r opsiwn tirlenwi pan fo hynny'n gwbl angenrheidiol.
Byddwn yn parhau i aildddefnyddio, ailgylchu neu gompostio canran uchel o wastraff (PAM/030). (Canlyniad 2016/17 - 66.23% /Targed 2017/18 - 64%) Targed wedi'i osod i gyrraedd targedau gwastraff cenedlaethol	✓	Canlyniad 2017/18 - 64.80%. Mae hyn wedi gostwng rhywfaint o 66.23% yn y flwyddyn flaenorol. Mae hyn yn bennaf o ganlyniad i anawsterau â'r manau tanwydd sy'n deillio o sbwriel. Fodd bynnag rydym wedi cyrraedd ein targed o 64% ar gyfer eleni.
Byddwn yn cynyddu canran yr achosion o dipio anghyfreithlon sy'n cael eu clirio mewn 5 diwrnod (PAM/011) (Canlyniad 2016/17 - 85.92%/Targed 2017/18 - 95%)	✓	Canlyniad 2017/18 - 95.02%. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn dangos gwelliant.
Byddwn yn cynnal lefel uchel o strydoedd yn lân (PAM/010) (Canlyniad 2016/17 - 98.6% / Targed 2017/18 - 92.0%)	✓	Canlyniad 2017/18 - 98.7%. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn dangos gwelliant.
Byddwn yn sicrhau bod glendid ein priffyrdd ar sail Archwiliadau Mynegai Glendid Cadwch Gymru'n Daclus yn parhau'n uchel (STS/005a) (Canlyniad 2016/17 - 73.2% / Targed 2017/18 - 67%)	✓	Canlyniad 2017/18 - 77.8%. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ac yn dangos gwelliant. Mae hyn yn seiliedig ar gyfuniad o arolygiadau a gynhelir gennym ni yn ystod y flwyddyn ac arolwg blynyddol annibynnol Cadwch Gymru'n Daclus.
Byddwn yn cadw'r amser a gymerir ar gyfartaledd (diwrnodau calendr) i waredu baw cŵn yn 2 ddiwrnod neu lai (5.2.2.19) (Canlyniad 2016/17 - 1.54 diwrnod / 2 ddiwrnod yw targed 2017/18)	✓	Canlyniad 2017/18 - 1.95 diwrnod. Mae hyn yn cydymffurfio â'r targed ond yn dangos dirywiad.